CYNGOR CYMUNED PENNAL

**Cofnodion o Gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher y 6ed o Dachwedd 2024 am 7.30yh yn y Ganolfan Pennal.**

Presennol; James Brunton, Meirion Roberts, Ken Griffiths, Sion Evans, William Rees, Dewi Owen (Cyngor Gwynedd) a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan yr Is - Gadeirydd y Cyng James Brunton.

   Roedd ymddiheuriadau gan Cyng Aled Rees a Cyng Rhys Parry.

   Nid oedd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb ar faterion sydd ar yr agenda.

2. Cadarnhawyd nad oedd unrhyw gyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

3. Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 23ain Medi 2024 ar gynnig Cyng Meirion Roberts a'i eilio gan Cyng Sion Evans.

4. **Materion yn codi.**
   a) **Materion Priffyrdd –** darllenwyd ymateb Cyngor Gwynedd ynglyn a'r materion a godwyd tro diwethaf. Roedd y Clerc wedi cael lluniau gan Cyng Rhys Parry yng nghyswllt cael drych ir briffordd o gyfeiriad Llyn Bwtri -yn dangos ffram flaenorol. Byddai yn danfon nhw ymlaen. Yng nghyswllt y gwaith ochr ffordd ger Rhif 1 Rhys Terrace, nid oedd bolards wedi eu rhoi, ac roedd angen atgoffa.
   b) **Mynwent yr Eglwys** – nid oedd unrhyw ddiweddariad ers y cyfarfod diwethaf
   **c) Carafan static Cwm Sylwi,** - nid oedd unrhyw ddiweddariad.
   **d) Difibrillators** –Nodwyd fod Cyng Aled Rees wedi cytumo i fod yn gyfrifol am y diffibrillator ger y toiledau yn Pennal, a diolchwyd yn fawr iawn am hyn.

   **e) Cwch/fan Transit ar dir Adra** – darllenwyd ymateb diweddaraf Mark Mortimer o Gyngor Gwynedd am y van Transit. Byddai rhaid atgoffa.

   f) **Menter y Glan** – adroddwyd am y cais am i dalu am ddau gamera CCTV. Ar gynnig Cyng Ken Griffiths a'i eilio gan Cyng William Rees, penderfynwyd talu y gost o tua £400 yr un. Byddent yn cael eu harchebu gan y Cyngor Cymuned. (Cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng James Brunton a Meirion Roberts.)

   g) **Baw cŵn ar y Marian** – roedd arwydd wedi ei ddylunio gan blant yr Ysgol, a chadarnhaodd Cyng Meirion Roberts y byddai yn cysylltu ac adrodd am hyn yn y cyarfod nesaf.

   h) **Bwrdd Gwybodaeth ger yr arhosfan bws** – roedd hwn wedi ei archebu

5**. Materion Cynllunio**

Roedd un cais wedi ei ddosbarthu ers y cyfarfod diwethaf, sef

**NP5/75/75D** - Adeiladu par o dai, ynghyd a maes parcio a dreif mynediad yn **Cyn Orsaf Betrol Plas Dyfi, Cwrt**

Roedd hwn wedi ei ddosbarthu eisoes, ac ymatebwyd ir Parc Cenedlaethol gyda’r sylwadau canlynol;

*Mae'r Cyngor yn gwrthwynebu y cais, a dyma rai o'r rhesymau a nodwyd gan y Cynghorwyr;*

*1. Mae y cais tu allan i’r llinell datblygu.*
*2. Does dim angen lleol yn ardal y cais.*
*3. Nid oes ymddiriedaeth gan y Cynghorwyr yn y drefn gynllunio i orfodi rheol i bobl lleol yn unig, a chyfeiriwyd at beth sydd wedi digwydd yn Cwrt( free for all ) Os caniateir y tai yma mae bron yn anochel mae i estronwyr yr ânt.*
*4. Mae Cwrt yn llawn o estron yn barod,dim ond tri person yn siarad cymraeg ar ôl.Tair gwraig weddw yn eu wythdegau!Mae calon y pentre wedi eu naddu allan gan fewnfudwyr fel petai.*
*5. Darn o dîr sydd wedi cael ei ddefnyddio i werthu ceir sydd yma. Byddai yn well iddo gael ei adael i fynd nôl i natur.*

6.**Materion Cyllid**

a) Nodwyd balansau y cyfrifon, (6.11.24), sef Cyfri Cyfredol £13526.55, Cyfri Cadw £2660.68.

b) Dosbarthwyd **drafft o gyllideb** ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf 2025-26 a oedd wedi ei baratoi gan y Clerc. Aethpwyd drwy y cynnwys gan ychwanegu rhai materion.

   **Yn dilyn hyn, ac ar sail y gyllideb, y penderfynwyd ar gynnig Cyng William Rees a’i eilio gan Sion Evans i gadw y praesept ar gyfer y flwyddyn nesaf 2025-26 ar £18,000.**

Yn ogystal, cafwyd cadarnhad nad oedd yr un Cynghorydd oedd yn bresennol yn awyddus i hawlio treuliau am y flwyddyn hon.

c) Anfonebau;

   Roedd un i law, sef **cost torch Sul y Cofio**, ac ar gynnig Cyng Ken Griffiths a’i eilio gan Cyng William Rees cytunwyd i dalu y £30

d) Ceisiadau am arian

   Roedd un cais i law, sef gan **Pwyllgor y Ganolfan, sef cais am arian tuag at gost y wi-fi.** Ar gynnig Cyng William Rees a’i eilio gan Cyng Ken Griffiths, cytunwyd ar gyfraniad o £200. (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Sion Evans pan drafodwyd hyn.

**7. Gohebiaeth**

- Adroddwyd am Gynhadledd SLCC/Un Llais Cymru ar Ddydd Mercher 20fed Tachwedd. Roedd y Clerc wedi cofrestru i ymuno, ac wedi talu y gost.
- Adroddwyd gohebiaeth Cyngor Cymuned Llanystumdwy ynglyn a Adroddiad y Comisiwn Cymunedau Cymraeg, ‘ Grymuso cymunedau, cryfhau’r Gymraeg’ ac anogaeth i’w gefnogi. Penderfynwyd y dylai’r Clerc ei ddosbarthu ymysg y Cynghorwyr.
- Nodwyd e-bost gan Llinos Alun ar ran Pwyllgor Achub Plas Tanybwlch i gael cefngoaeth Cynghorau Cymuned lleol. Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd peidio gwneud dim ymhellach.

8**.Unrhyw fater arall.**

- Roedd gwter tu allan i’r drws yn y Glanyrafon wedi blocio, ac angen danfon at Adran Briffyrdd Gwynedd.

**DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF; Nos Wener, 13eg o Ragfyr yn y Ganolfan, Pennal am 7.30yh.**

Daethpwyd a’r cyfarfod i ben am 8.45pm.